| Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR SIOPAU BACH<br><br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12.00pm ar 16 Medi 2014 yn Nhŷ Hywel |
|---|

YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC (JFS) | Cadeirydd |
| Keith Davies AC (KD) | Aelod |
| Russell George AC (RG) | |
| Shane Brennan (SB) | Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) |
| Sophie Mew (SM) | Ysgrifennydd |
| Craig Lawson (CL) | Suzy Davies AC |
| Gareth Saunders (GS) | Janet Finch-Saunders AC |

1. CYFLWYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol a chyflwynodd SB a fyddai'n rhoi trosolwg o waith y Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2. CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS SIOPAU CYFLEUSTRA

Rhoddodd SB gyflwyniad ar waith y Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Tynnodd sylw at y ffaith fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi cynnal tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod y Grŵp wedi cydlynu'r sesiwn ffotograffau Sadwrn Busnesau Bach ym mis Rhagfyr ac wedi cynnal derbyniad yn y Cynulliad ar 15 Gorffennaf.

*Trafodaeth*

Yn dilyn y cyflwyniad, trafodwyd nifer o faterion a chynigiwyd trafodaethau i'r Grŵp ar gyfer y dyfodol

*Canol Trefi*

Dywedodd KD wrth y Grŵp y byddai'n arwain dadl ar ganol trefi yng Nghynulliad Cymru, gan dynnu sylw at y broblem o barcio yng nghanol trefi. Cytunodd JFS i fod yn bresennol. Tynnodd SB sylw at waith y Gymdeithas Siopau Cyfleustra ar arfer gorau o ran rheoli parcio a **CHYTUNWYD** y byddai'r ddogfen hon yn cael ei dosbarthu i'r Grŵp.

Cynllunio

Cododd y Grŵp y mater o bolisi cynllunio. Amlygodd JFS y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol edrych ar bolisi cynllunio a sut mae gwahanol ranbarthau Cymru yn cael eu heffeithio gan gynlluniau awdurdodau lleol. Awgrymwyd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol gynnal cyfarfodydd yng ngogledd Cymru a chanolbarth Cymru er mwyn sicrhau bod barn siopau bach ledled Cymru yn cael eu cynnwys wrth drafod polisi cynllunio. Cododd JFS y mater o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd yng nghanol trefi a **CHYTUNWYD** y byddai hyn yn cael ei gynnwys mewn trafodaeth yn y dyfodol ar bolisi cynllunio.

*Cyfarfodydd y dyfodol*

Nodwyd y byddai adroddiad am ardrethi busnes yng Nghymru, ac awgrymwyd y pwnc fel y testun nesaf i'r grŵp ei drafod. Cynigiwyd Cynllunio hefyd fel problem.

Tynnodd JFS sylw at y mater o fagiau siopa a'r gwahaniaeth yn y tâl am fagiau papur a bagiau plastig, yn ogystal â manwerthwyr yn codi tâl am fagiau am oes lle nad yw'r tâl yn cael ei drosglwyddo i elusennau.

Cododd KD y mater o droseddau yn erbyn manwerthwyr bach a'r hyn y gellir ei wneud i ddatrys y broblem hon, a'i fod wedi gweithio gyda'r undeb llafur Usdaw ar ymgyrch i atal troseddau. Dywedodd SB fod y Gymdeithas Siopau Cyfleustra hefyd yn gweithio gydag Usdaw a bod presenoldeb yr heddlu yng nghanol trefi yn bwysig i atal troseddau. Awgrymodd RG y dylai'r Grŵp ysgrifennu at y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i alw am gymorth i siopau bach atal lladrata ac i edrych ar yr ymatebion; **CYTUNWYD ar hyn.**

3. **ETHOLIADAU**

Ail-etholwyd JFS yn unfrydol yn Gadeirydd gan y Grŵp Trawsbleidiol, gyda SM yn cael ei ethol yn unfrydol yn Ysgrifennydd.

*Y camau nesaf*

**CYTUNWYD** y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp yn trafod ardrethi busnes yng Nghymru ac y byddent yn cysylltu â siaradwyr posibl.

**CYTUNWYD** hefyd y byddai'r Grŵp yn ysgrifennu at Gynulliad Cymru ynglŷn â'r mater o fagiau plastig ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am bolisi'r Llywodraeth.

Daeth JFS â'r cyfarfod i ben.